

# Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

## 11. Ymgyrchu a dylanwadu

### 11.15 Cyngorau Tref a Chymuned



Cardiff Third Sector Council  
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Mae 735 o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru gyda rhyw 8,000 o gynghorwyr yn cynrychioli buddiannau'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Nid oes gan bob rhan o Gymru gyngor tref neu gymuned serch hynny – mae'r 735 o gynghorau yn cwmpasu 94 y cant yn fras o'r arwynebedd tir a 70 y cant o'r boblogaeth, er nad yw'n anodd sefydlu cyngor yn eich ardal os nad oes un gennyh eisoes.

Tan 1974, roedd y cynghorau cymuned yn cael eu galw'n gynghorau plwyf yng Nghymru, ond newidiwyd yr enw yng Nghymru fel rhan o'r newidiadau a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae cynghorau plwyf yn dal i fodoli yn Lloegr a'r un pwerau sydd gan gynghorau plwyf a chynghorau cymuned. I raddau helaeth, bydd pa un ai cyngor tref ynteu gyngor cymuned sydd gennyh yn dibynnu ar faint y boblogaeth – po fwyaf y gymuned, y mwyaf tebygol yw o gael ei alw'n gyngor tref.

Dyma'r haen o lywodraeth leol sydd agosaf at y bobl. Mae llawer o gynghorwyr tref neu gymuned yn cynrychioli'r gymuned gyfan y mae'r cyngor yn ei chwmpasu, felly bydd pob un o'r cynghorwyr tref neu gymuned yn eich cynrychioli chi. Fodd bynnag, caiff rhai ardaloedd eu rhannu'n wardiau cymunedol llai a dim ond rhai o'r cynghorwyr fydd yn cynrychioli'r ardal lai honno.

Mae gan gynghorau tref a chymuned bwerau dros faterion lleol iawn, yn cynnwys:

- darparu a chynnal cynlluniau cludiant cymunedol
- mesurau gostegu traffig
- prosiectau ieuencid lleol
- meysydd parcio
- meysydd pentref
- cyfleusterau hamdden
- toiledau cyhoeddus
- biniau sbwriel
- glanhau strydoedd
- rhandiroedd
- manau agored
- llochesau bws
- mynwentydd
- llwybrau troed

Hefyd mae yna gynlluniau i gryfhau rol y cynghorau tref a chymuned trwy ehangu'r pwere i hyrwyddo lles eu cymunedau ar eu cyfer hwy yn ogystal a'r awdurdodau.

Maent hefyd yn gyrrff y mae'n ofyniad statudol ymgynghori â nhw ynglŷn â cheisiadau cynllunio yn eu hardal.

Mae gan gynghorau tref a chymuned yr hawl i godi arian ar gyfer y gwasanaethau y maent yn eu darparu drwy drethi lleol. Caiff treth fach, a elwir yn 'braesept', ei hychwanegu at eich treth gyngor a'i chasglu gyda'r dreth gyngor. Mae edrych ar eich bil treth gyngor yn un ffordd o ganfod a oes cyngor tref neu gymuned yn gwasanaethu eich ardal chi, oherwydd bydd y braesept yn cael ei dangos fel eitem ar eich bil.

Ffordd arall fyddai cysylltu â'ch cyngor lleol a fydd yn gwybod am yr holl gynghorau tref a chymuned yn ei ardal. Gallech hefyd fynd i wefan Un Llais Cymru ar [www.onevoicewales.org.uk](http://www.onevoicewales.org.uk) Dyma'r corff sy'n cynrychioli ac yn darparu gwasanaethau cymorth i gynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Ar eu gwefan ceir llawer iawn o wybodaeth ddefnyddiol am ddalgylchoedd daearyddol cynghorau Cymru, yn ogystal â gwybodaeth am yr hyn a wnânt a sut i sefydlu cyngor yn eich ardal chi os nad oes un yn bodoli eisoes.

## Gwybodaeth Bellach

### Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Ffôn: 0800 2888 329

[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

### Un Llais Cymru


Ffôn: 01269 595400

[www.onevoicewales.org.uk](http://www.onevoicewales.org.uk)

### Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

<p><b>Cyngor Trydydd Sector Caerdydd</b> <i>Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH</i> <b>Elusen Gofrestredig: 1068623</b></p> <p><b>Ffôn:</b> 029 2048 5722      <a href="mailto:enquiries@c3sc.org.uk">enquiries@c3sc.org.uk</a> <b>Ffacs:</b> 029 2046 4196      <a href="http://www.c3sc.org.uk">www.c3sc.org.uk</a></p>	 <p><b>WcVA</b> <b>CgGC</b></p>
<p>Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli <b>Wedi ei ddiweddarau:</b> 19/10/2012</p>	<p>Ffôn: 0300 111 0124 <a href="http://www.wcva.cymru">www.wcva.cymru</a></p>